



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Ymgynghori â'r Gymuned Cyn Ymgeisio: Canllaw Arfer Gorau i Ddatblygwyr

Rhagfyr 2021

---

# Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| <b>1. Rhagarweiniad</b>  | 01 |
| <b>1.1</b> Pwrpas y nodyn canllaw arfer gorau hwn                                  | 01 |
| <b>1.2</b> Cyflwyno cam ymgynghori cyn ymgeisio statudol i'r broses gynllunio      | 01 |
| <b>2. Y gofynion statudol i ymgynghori cyn ymgeisio</b>                            | 02 |
| <b>2.1</b> Pa brosiectau sydd angen ymgynghori arnynt cyn ymgeisio o dan y Ddeddf? | 02 |
| <b>2.2</b> Beth yw'r broses ymgynghori cyn ymgeisio statudol?                      | 02 |
| <b>3. Ychwanegu gwerth at ymgynghoriad cyn ymgeisio</b>                            | 04 |
| <b>3.1</b> Pam cyflawni ymgysylltu effeithiol                                      | 04 |
| <b>3.2</b> Y dull cywir o ymgynghori   | 04 |
| <b>3.3</b> Faint o ymgynghori i'w wneud a phryd                                    | 06 |
| <b>3.4</b> Deall y gymuned   | 08 |
| <b>3.5</b> Ymgynghori â phwy?  | 09 |
| <b>3.6</b> Adnoddau a thechnegau sy'n ychwanegu gwerth at ymgynghori               | 12 |
| <b>3.7</b> Cofnodi, ymateb ac adrodd   | 17 |
| <b>4. Casgliad</b>   | 19 |
| <b>4.1</b> Myfyrio ar y broses   | 19 |
| <b>Atodiad 1</b> – Rhestr gwirio cydymffurfiaeth                                   |    |
| <b>Atodiad 2</b> – Adnabod ymgynghoreion arbenigol                                 |    |

## Ymwrthodiad

Mae'r darlun / ddogfen hon at ddibenion eglurhaol yn unig. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb yn codi o ddibynnu ar y wybodaeth yn y darlun / ddogfen hon.

## Hawffraint

Mae pob darlun yn Hawffraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded 100020449.

Cynhyrchwyd y canllaw arfer gorau hwn gan gwmni Turley ar ran Llywodraeth Cymru.

# 01 Rhagarweiniad

## 1.1 Pwrpas y nodyn canllaw arfer gorau hwn



Ar 16 Mawrth 2016, cafodd elfennau allweddol o Ddeddf Gynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf) eu gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys bod angen i ddatblygwyr ymgynghori'n statudol ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr yng Nghymru, cyn gwneud cais. O'r 1 Awst 2016 ymlaen, mae'n ofynnol i ymgeiswyr (datblygwyr) sy'n meddwl cyflwyno ceisiadau am ddatblygiadau mawr ddangos sut y gwnaethant gadw at y gofynion newydd ar ymgynghori fel rhan o gyflwyno eu ceisiadau cynllunio.

Mae'r nodyn canllaw arfer gorau hwn wedi'i baratoi i'w ddefnyddio gan ddatblygwyr. Mae'n rhoi cyngor lefel uchel, a manylion, ar ymgynghori ar gynlluniau datblygu mawr. Nod y canllaw yw sicrhau bod y gofynion gweithdrefnol a chyfreithiol perthnasol yn cael eu cwrdd ac egluro sut y gall datblygwyr elwa o ymgynghori sy'n gwneud mwy na chwrdd â'r gofynion statudol drwy fabwysiadu dulliau arfer gorau.

Mae'r nodyn canllaw hwn yn offeryn sy'n cynnig awgrymiadau, enghreifftiau a chyngor defnyddiol i ddatblygwyr. Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r canllaw, mae hefyd angen ystyried yn ofalus yr holl ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol. Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli barn ystyriol bresennol Llywodraeth Cymru, ond yn y pen draw mater i'r Llysoedd yw dehongli'r gyfraith.

## 1.2 Cyflwyno cam ymgynghori cyn ymgeisio statudol i'r broses gynllunio




Roedd proses casglu tystiolaeth Llywodraeth Cymru, wrth baratoi'r Ddeddf, wedi nodi bod angen gwneud mwy o ymdrech i gynnwys cymunedau mewn cynllunio datblygiadau sy'n effeithio arnynt. Hefyd, bod angen cynnwys y gymuned ar adegau pan fo hynny'n ystyrlon a phan fo'r gymuned yn gallu dylanwadu ar y cynllun, ac nid ar ôl i benderfyniadau pwysig gael eu gwneud.

Mae'r cyhoedd yn rhanddeiliaid pwysig yn y broses gynllunio. Mae'n bwysig bod barn y cyhoedd yn cael ei gweld fel rhan annatod o'r broses. O'i wneud yn dda, mae ymgysylltu'n rhan flaenllaw o'r broses gynllunio, mae'n ennill sêl bendith y gymuned, gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig ac yn creu proses gynllunio effeithlon a mwy sicr i bawb. I sicrhau'r rôl flaenllaw hon a bod pobl yn cael eu cynnwys, dywedodd y Ddeddf fod angen i ddatblygwyr ymgynghori ar bob datblygiad mawr cyn gwneud cais.

## 02 Y gofynion statudol i ymgynghori cyn ymgeisio

### 2.1 Pa brosiectau sydd angen ymgynghori arnynt cyn ymgeisio o dan y Ddeddf?



O dan y Ddeddf, bydd angen i ddatblygwyr sy'n rhoi prosiectau'n cynnwys 'datblygiad mawr' gerbron ymgynghori'n statudol cyn gwneud cais. Rhoddir y diffiniad o ddatblygiad mawr yn Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO).

Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i geisiadau arfaethedig: o dan adrannau 73 (penderfynu ceisiadau i ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau ynghlwm yn flaenorol) a 73A (caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi'i gyflawni) o Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990; ar gyfer materion a gedwir yn ôl neu o dan adran 96A (diwygiadau heb fod o bwys).

Yn fyr, datblygiad mawr yw:

- Datblygiadau o 10 neu fwy o dai lle mae arwynebedd y safle'n 0.5 ha neu fwy (os nad yw nifer y tai'n hysbys);
- Darparu adeilad(au) lle mae arwynebedd y llawr yn fwy na 1,000 metr sgwâr;
- Tyllu a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir i storio dyddodion tyllu mwynau;
- Datblygiad gwastraff; a
- Datblygiad ar safle o 1 ha neu fwy.

### 2.2 Beth yw'r broses ymgynghori cyn ymgeisio statudol?



Gorfodir y gofyniad statudol i ymgynghori gan adran 61Z o Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae darpariaeth arall wedi'i chynnwys yn Rhan 1A o'r DMPWO.

Mae'r dogfennau hyn yn gosod allan nifer o weithgareddau ymgynghori sydd angen eu cyflawni gan y datblygwr cyn y gall gyflwyno'r cais cynllunio. Yn fyr, maen nhw'n cynnwys:

- Trefnu bod y dogfennau cais cynllunio drafft ar gael i'w gweld;
- Hysbysu'r ymgynghoreion iawn fod yr ymgynghoriad yn digwydd;
- Darparu cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod; ac
- Adrodd ar sut y cafodd yr ymgynghoriad cyn ymgeisio ei wneud a sut yr ystyriwyd barn pobl mewn 'Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio' sydd i'w gyflwyno fel rhan o'r cais.

I helpu datblygwyr i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth wrth gyflawni'r ymgynghoriad statudol, rhoddir arweiniad syml cam wrth gam ar y dudalen nesaf.

### Cam 1

**Sefydlu sut fath o ddatblygiad ydy o** – Bydd hyn yn helpu i sefydlu pa ddogfennau sydd eu hangen i gefnogi'r cais cyn mynd ati wedyn i ymgynghori ar y dogfennau hyn. Er nad oes angen, argymhellir cael barn sgrinio am Asesiad o Effaith Amgylcheddol cyn cyflawni unrhyw ymgynghori statudol cyn ymgeisio. Mae hyn yn atal oedi a'r risg o orfod ail-ymgynghori os oes angen dogfennau cais ychwanegol.



### Cam 2

**Trefnu bod fersiwn drafft o'r cais cynllunio ar gael ar gyfer ymgynghori** – Bydd angen i ddatblygwyr baratoi set lawn o'r dogfennau cais cynllunio drafft gan gynnwys y Datganiad Dylunio a Mynediad, yr holl gynlluniau / darluniau wrth raddfa, gwybodaeth / arolygon a dogfennau technegol y byddai eu hangen i ddilysu'r cais cynllunio.



### Cam 3

**Cychwyn y cyfnod ymgynghori 28 diwrnod** – Rhaid ymgynghori, yn statudol, am o leiaf 28 diwrnod cyn cyflwyno'r cais cynllunio. Bydd y cyfnod hwn yn dechrau:

- Unwaith y bydd hysbysadau safle (yn Gymraeg a Saesneg) wedi cael eu harddangos yn gyhoeddus o gwmpas safle'r cais. Bydd yr hysbysiad safle'n rhoi gwybod i breswylwyr am y cynigion, yr ymgynghori sy'n digwydd ac yn rhoi manylion am sut i ymateb i'r ymgynghoriad – mae'r hysbysiad safle'n cynnwys y wybodaeth a roddir yn Atodlen 1B o' [Cyhoedduswydd ac Ymgynghori cyn Gwneud Cais am Ganiatâd Cynllunio - Hysbysiad o dan Erthyglau 2C a 2D - DMPWO](#).
- Unwaith yr anfonir copi o'r hysbysiad safle at berchnogion neu ddeiliaid y tir gerllaw safle'r cais ac at ymgynghoreion cymunedol.
- Unwaith yr anfonir y wybodaeth yn [Atodlen 1C o dan Erthygl 2D - Ymgynghori Cyn Gwneud Cais am Ganiatâd Cynllunio - DMPWO](#) at yr ymgynghoreion arbenigol.
- Unwaith y bydd copi o'r cais cynllunio drafft ar gael i'r cyhoedd ei weld mewn lle hygyrch – gall datblygwyr roi'r wybodaeth yma ar-lein neu mewn adeilad cyhoeddus, er enghraifft mewn canolfan gymunedol.



### Cam 4

**Paratoi Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio** – Mae'r adroddiad hwn yn ofynnol i ddilysu ceisiadau cynllunio a bydd yn rhan o gyflwyno'r cais terfynol. Bydd yn dangos sut y gwnaeth y datblygwr ymgynghori'n unol â'r gofynion, yn nodi pa faterion a godwyd gan yr ymatebwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori a sut yr ystyriwyd y sylwadau hynny wrth baratoi'r cais terfynol.



I helpu datblygwyr i gyflawni ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio, mae rhestr gydymffurfio wedi'i pharatoi ac wedi'i chynnwys fel atodiad i'r nodyn canllaw hwn. Rhaid cwblhau pob un o'r tasgau ar y rhestr er mwyn cwrrd â'r gofynion yn y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, gallai fod yn fanteisiol i'r datblygwr gyflawni weithgareddau ymgynghori ychwanegol, fel y mae'r nodyn hwn yn ei egluro.

## 03 Ychwanegu gwerth at ymgynghoriad cyn ymgeisio

### 3.1 Pam cyflawni ymgysylltu effeithiol?



Mae ymgysylltu da'n fwy na dim ond 'ticio blwch'. Gall pob datblygiad, waeth pa mor fawr neu fach, elwa o ymgysylltu effeithiol.

Gall ymgysylltu cyn ymgeisio fod mewn sawl ffurf. Mae'r gofynion deddfwriaethol yn nodi'r lleiafswm o ymgysylltu sydd angen ei wneud ar gyfer datblygiad mawr. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n annog datblygwyr i wneud mwy na'r lleiafswm er mwyn cael y gorau allan o'r broses.

I gymuned, mae newid eu hamgylchedd yn aml yn achosi straen, yn enwedig pan fo'r newid yn cael ei weld fel un negyddol. Yr her i ddatblygwyr yw ymgynghori'n eang a chliir er mwyn cael ymateb cytbwys a gwybodus.

O'i wneud yn dda, dylai ymgysylltu wneud pethau'n fwy tryloyw, cryfhau perthnasoedd ac arwain y prosiect drwy ystyried ac ymateb i adborth. Yn ei dro, dylai hynny helpu i oresgyn materion cynllunio a gwella'r siawns o lwyddo gyda cheisiadau.

O ymgynghori'n wael, mae datblygwyr yn mentro gwneud drwg i'w henw da. Mae'r ymddiriedaeth rhwng y datblygwyr a'r gymuned yn erydu ac weithiau'n arwain at orfod rheoli argyfwng. Gall hefyd gael effaith negyddol ar ganlyniad cais cynllunio.

Mae amryw o wahanol adnoddau, technegau a dulliau o ymgysylltu'n effeithiol. Nid oes angen i bob dull ymgysylltu fod yn faith na'n ddrud. Gall pethau syml fel gwella'r ffordd y cyflawnir tasgau ymgynghori cyn ymgeisio statudol ddenu ymateb gwell na dibynnu ar y lleiafswm ymgynghori sy'n ofynnol. Mae'r nodyn hwn yn awgrymu rhai dulliau ymgysylltu y gellid eu defnyddio.

### 3.2 Y dull cywir o ymgynghori



Mae gan Gymru rwydwaith amrywiol a chyfoethog o gymunedau ar draws y wlad. Ni fydd 'un esgid i ffitio pawb' felly'n sicrhau'r canlyniadau gorau o ymgynghori. Er mwyn ymgysylltu'n effeithiol, rhaid i'r datblygwyr yn gyntaf ddeall y gymuned a chreu strategaeth ymgynghori bwrpasol a phriodol.

Prif nod datblygu strategaeth ymgynghori yw sicrhau bod gan y gweithgareddau sydd mewn golwg bwrpas clir, eu bod yn cynnwys y bobl a'r grwpiau iawn ar yr amser iawn ac yn rhoi cyfle i ymgynghoreion chwarae rhan gadarnhaol yn natblygiad y prosiect. Gall hefyd helpu i sicrhau bod y gofynion statudol wedi cael eu cwrdd.

## Creu strategaeth ymgynghori

Wrth greu strategaeth ymgynghori, argymhellir ystyried y cwestiynau canlynol i helpu i ddatblygu dull priodol a chymesur fydd yn ennill y gwerth gorau o'r ymgynghoriad.

### C1. Pa mor sylweddol yw'r cynllun a faint o ddiddordeb y credir sydd gan y gymuned?

Bydd hyn yn helpu i benderfynu a ddylai'r dull fynd yn bellach na'r lleiafswm o ymgynghori sy'n ofynnol.

### C2. Pryd yw'r amser iawn i ymgynghori?

Ar gyfer cynlluniau mwy, gallai fod yn fanteisiol cynnal cylch 'anstatudol' cynt o ymgynghori, gyda'r ymgynghoriad statudol i ddilyn wedyn.

### C3. Beth yw cyfansoddiad y gymuned a sut alla i ymgysylltu â'r gymuned gyfan?

Bydd dealltwriaeth o'r ddemograffeg leol, gan gynnwys cyfran y preswylwyr sy'n siarad Cymraeg, yn helpu i adnabod y ffordd fwyaf priodol o ymgysylltu â'r gymuned gyfan.

### C4. Gyda phwy y dylwn i ymgynghori?

O dan y ddeddfwriaeth, mae'n rhaid i ddatblygwyr ymgynghori â nifer o ymgynghoreion statudol. Fodd bynnag, a oes unrhyw grwpiau anstatudol eraill a fyddai'n ychwanegu budd at ddatblygiad y prosiect drwy ymgysylltu?

### C5. Pa adnoddau a thechnegau sydd modd eu hychwanegu i'r gofynion statudol i ennill mwy o werth drwy'r broses ymgynghori?

Gall y dulliau amrywio o weithgareddau ychwanegol er mwyn codi ymwybyddiaeth, adnoddau digidol a digwyddiadau cyhoeddus.

### C6. Sut y bwriedir cofnodi, adrodd ac ystyried y sylwadau?

Mae'n arfer da i ddatblygu system i ymateb i sylwadau a phenderfynu sut y bwriedir eu cofnodi. Bydd hyn yn bwydo i'r Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio.

Mae'r nodyn canllaw hwn yn rhoi mwy o fanylion am y cwestiynau uchod i helpu datblygwyr i benderfynu sut orau i ymgynghori ar eu cynllun.

Mae'n fanteisiol i ddatblygwyr rannu eu strategaeth ymgynghori â'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Cyngor Cymuned perthnasol. Gallent awgrymu gweithgareddau ymgynghori ychwanegol, a byddai cynnwys ymgynghoreion yn y rheini'n briodol ar gyfer y cynllun.

### 3.3 Faint o ymgynghori i'w wneud a phryd



#### Pa mor sylweddol yw'r cynllun?

Bydd ateb y cwestiwn hwn yn helpu i benderfynu a ddylai'r strategaeth ymgynghori fynd yn bellach na'r lleiafswm sy'n ofynnol. Dylai'r datblygwr ystyried:

- Pa effaith y credir y bydd y cynllun arfaethedig yn ei gael ar y gymuned?
- Pa mor bellgyrhaeddol fydd effeithiau'r cynllun – a fydd yn cael effaith ar ardaloedd cyfagos?
- A allai'r cynllun fod yn ddadleuol?
- A fydd yn dod â manteision sylweddol i'r ardal leol?

Gyda phrosiectau sy'n debygol o gael dim ond effaith fach ac na fydd yn arwain at lawer o newid i amgylchoedd pobl, efallai mai ond y lleiafswm o weithgareddau ymgynghori fydd ei angen. Bydd rhai gydag effaith fwy ac ehangach yn elwa o'r gweithgareddau ychwanegol a ddisgrifir yn y nodyn hwn.

#### Pryd i ymgynghori?

Bydd creu amserlen o weithgareddau ymgynghori ar ddechrau'r prosiect yn helpu i gyflawni'r gweithgareddau ymgysylltu anstatudol, a statudol, ar yr adeg iawn. Gall hefyd helpu i sicrhau bod y gofynion statudol yn cael eu cwrdd.

Ar gyfer cynlluniau mwy, gallai fod yn syniad da cynnal rownd o ymgynghori 'anstatudol' cyn cychwyn y broses ymgynghori statudol. Yn aml iawn, mae cerrig milltir yn gynnar yn natblygiad cynllun lle byddai gofyn am sylwadau'n caniatáu i'r gymuned gael mwy o ddylanwad mewn llunio'r cynllun.

#### Ymgynghori mewn sawl cam

Ar gyfer cynlluniau sylweddol eu maint, fel datblygiadau preswyl mawr, cynigion siopa a hamdden mawr a phrosiectau seilwaith, gallai fod yn fanteisiol iawn ymgynghori mewn nifer o gamau. Gallai ymgysylltu cynnar fesul cam helpu i gael sêl bendith y gymuned a lleihau gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod penderfynu.

#### Ymgynghori mewn un cam

Ar gyfer cynlluniau llai, gallai ymgynghori mewn un cam fod yn fwy priodol. Fodd bynnag, mae modd i ddatblygwyr gyflawni gweithgareddau ychwanegol y tu allan i'r gofynion statudol.

#### Argaeledd gwybodaeth

Bydd angen i ddatblygwyr gynllunio ar gyfer pryd y gall yr ymgynghori statudol ddechrau. Mae hyn yn dibynnu a yw'r dogfennau cais drafft ar gael. Fel rhan o'r ymgynghori statudol, mae angen i'r set gyfan o ddogfennau cais cynllunio fod ar gael i ymgynghoreion eu gweld a gwneud sylw arnynt.

Ni all yr ymgynghoriad statudol ddechrau tan fydd y dogfennau cais drafft ar gael. Bydd y wybodaeth dechnegol ar gyfer y dogfennau hyn yn barod ar wahanol adegau, er enghraifft rhaid cyflawni arolygon ecolegol penodol ar adegau penodol o'r flwyddyn a allai ddal pethau'n ôl o ran pryd fydd y set gyfan o ddogfennau'n barod.

Mae'n bwysig nodi bod dogfennau'r cais yn cael eu paratoi ar ffurf drafft, nid y dogfennau terfynol ydyn nhw. Fodd bynnag, mae angen i'r dogfennau ddarparu digon o wybodaeth fel bo'r ymgynghoreion yn gallu rhoi ymateb gwybodus. Un prawf o ran pryd y bydd dogfennau'r cais yn barod ar gyfer ymgynghori yw: 'Ydy'r wybodaeth ddrafft yn rhoi dealltwriaeth resymol o'r prosiect cyfan?'. Lle gellir ateb ydy, mae'r prosiect felly'n barod i ymgynghori arno.

### Astudiaeth Achos: Prosiect adfywio De-orllewin Cymru – Ymgynghori mewn sawl cam



Fel rhan o'r broses cyn ymgeisio ar gyfer prosiect adfywio'n cynnwys cyfleusterau siopa, hamdden, cyflogaeth a thai, cafodd ymgynghori helaeth ei wneud i sicrhau bod y cynlluniau'n cwrdd â dyheadau'r gymuned.

Cynhaliwyd cam cyntaf yr ymgynghori (anstatudol) yn yr hydref 2015 a'r ail gam (statudol) yn y gwanwyn 2017. Roedd y gweithgareddau ymgynghori'n cynnwys gwefan ar gyfer y prosiect, cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid lleol a grwpiau budd ac arddangosfa gyhoeddus 3 diwrnod, a mwy.

Cafodd y cais ei gyflwyno, ei ddilysu ym mis Mawrth 2017, ac yna ei gymeradwyo ym Mehefin 2017 (o fewn 12 wythnos). Llwyddodd yr ymgynghoriad i roi sylw a lleihau nifer y sylwadau a dderbyniwyd wrth i'r broses fynd yn ei blaen, fel y gwelwn isod:

- Gwelodd gam cyntaf yr ymgynghoriad (anstatudol) fwy na 3,500 o bobl yn cymryd rhan a derbyniwyd 293 o ymatebion.
- Gwelodd ail gam yr ymgynghoriad (statudol) fwy na 2,500 o bobl yn cymryd rhan a derbyniwyd 48 o ymatebion.
- Ar ôl cyflwyno, derbyniodd ymgynghoriad ffurfiol yr Awdurdod Cynllunio Lleol 18 o ymatebion (gan gynnwys rhai gan ymgynghoreion technegol).

Dangosodd yr astudiaeth achos hon y gall datblygwr, drwy ymgysylltu mewn sawl cam, roi sylw a lleihau nifer y materion sy'n cael eu codi dros amser. Yn ei dro, gall hyn leihau nifer y sylwadau a wneir yn ystod y cyfnod o benderfynu cais a hefyd yr amser a gymerir i benderfynu cais.

“Gall ymgysylltu'n gynnar fesul cam helpu i ennill sêl bendith y gymuned a lleihau gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod o benderfynu'r cais”

### 3.4 Deall y gymuned



Dylid rhoi cyfle i bawb yn y gymuned gael dweud eu dweud.

Mae penderfyniadau'n aml yn cael eu gwneud ar sail yr ymatebion a ddaw i law. Felly rhaid meddwl am sut i ymgysylltu â'r bobl yn y gymuned nad ydynt yn draddodiadol efallai'n ymateb i ymgynghori er mwyn cael barn gytbwys. Gellir gwneud hyn yn defnyddio ystod o weithgareddau ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth i gyrraedd gwahanol grwpiau o bobl.

Mae angen i ddatblygwyr ddeall y gymuned leol er mwyn ymgysylltu'n briodol ac effeithiol. Mae gwbyodaeth am nodweddion demograffig y gymuned leol ar gael o ddata Cyfrifiad a thrwy drafod â'r Awdurdod Cynllunio Lleol a Chynghorau Cymuned.

Un nodwedd unigryw sy'n wahanol ar draws cymunedau yng Nghymru yw'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg. Mae tua hanner miliwn o bobl yn siarad Gymraeg yng Nghymru (tua 20% o'r boblogaeth) ac mewn rhai ardaloedd bydd mwy o ddisgwyl i ddatblygwyr ddarparu gwbyodaeth yn Gymraeg sy'n fwy na'r lleiafswm sy'n ofynnol. Dylai datblygwyr bob amser fod yn barod i dderbyn ymatebion i ymgynghoriad yn Gymraeg.

### Astudiaeth Achos – Datblygiad siopa a hamdden, gogledd-orllewin Cymru – Argaeledd deunyddiau ymgynghori Cymraeg



Roedd y datblygwr yn hyrwyddo dwy archfarchnad fwyd a gwesty newydd. Cafodd y gweithgareddau ymgynghori statudol eu cyflawni a'r deunyddiau codi ymwybyddiaeth angenrheidiol eu darparu yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Teimlai'r gymuned nad oedd y datblygwr wedi gwneud digon a chyhoeddwyd erthygl mewn papur newydd yn nodi nad oedd y datblygwr wedi 'parchu' yr iaith Gymraeg, gan achosi niwed posib i'r berthynas rhwng y gymuned a'r datblygwr.

Roedd y datblygwr yn hyrwyddo dwy archfarchnad fwyd a gwesty newydd. Cafodd y gweithgareddau ymgynghori statudol eu cyflawni a'r deunyddiau codi ymwybyddiaeth angenrheidiol eu darparu yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Er nad oedd yn ofynnol, gellid bod wedi osgoi'r broblem hon pe bai'r deunyddiau ychwanegol a'r wefan wedi cael eu darparu yn Gymraeg o'r dechrau.

“Mae angen i ddatblygwyr ddeall y gymuned leol er mwyn ymgysylltu'n effeithiol a phriodol”

### 3.5 Ymgynghori â phwy?



Fel rhan o'r gofynion cyn ymgeisio statudol, mae'n ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori gyda thri grŵp:


- Pobl sy'n ddeiliaid neu'n berchnogion gerllaw safle'r cais;
- Ymgynghoreion cymunedol; a
- Ymgynghoreion arbenigol.

#### Hysbysu perchnogion a deiliaid

Rhaid i ddatblygwyr roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad er mwyn tynnu sylw pobl sy'n ddeiliaid neu'n berchen ar eiddo cyfagos i safle'r cais. Efallai y bydd datblygwyr eisiau ystyried manteision rhoi gymaint o gyhoeddusrwydd â phosib iddo. Er enghraifft, dengys y map isod dir cyfagos i safle cais, gyda dim ond dau eiddo arno.


I sicrhau bod pawb yng nghyffiniau'r safle'n dod i wybod am yr ymgynghoriad, gall y datblygwr ymestyn yr ardal ymgynghori'n bellach fyth, fel y mae'r ddelwedd isod yn ei ddangos. Mae'r ardal hon yn cynnwys 66 eiddo fel bod yr ymgynghoriad yn gallu cyrraedd mwy o bobl.

Ar gyfer cynlluniau mwy o faint / mwy arwyddocaol, mae modd ehangu'r ardal ymgynghori i fod yn gymesur ag effaith bosib y cynllun.



▲ Eiddo cyfagos

#### ▼ Ardal ymgynghori ehangach



### Gweithio gydag ymgynghorwyr cymunedol

Mae ymgynghorwyr cymunedol yn cynnwys pob Cyngor Cymuned neu Gyngor Plwyf yn yr ardal lle bwriedir lleoli'r datblygiad arfaethedig; a phob Cyngorydd (Aelod Lleol) yn cynrychioli ward etholiadol lle byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei leoli. Hysbysir hwynt o'r ymgynghoriad statudol drwy lythyr a / neu e-bost.

Mae Cynghorwyr Lleol a Chynghorau Cymuned / Plwyf yn ffynonellau cyfoethog o wybodaeth leol a medrant roi cyngor ar y ffordd orau o ymgysylltu â'r gymuned leol. Mae llawer o Gyngorwyr a Chynghorau Cymuned yn disgwyl gallu ymgysylltu'n uniongyrchol a chwedd â'r datblygwr fel rhan o'r broses ymgynghori.

Mae'n fanteisiol ymgysylltu gyda, a gwranddo ar yr ymgynghorwyr cymunedol i ddeall eu disgwyliadau am sut i ymgysylltu â'r gymuned leol a chael eu barn am y datblygiad.

### Astudiaeth achos – Tai ac eglwys newydd, Canolbarth Cymru – Ymgysylltu â Chynghorau Cymuned



Cyflawnodd y datblygwr yr ymgynghoriad ar y tai a'r eglwys newydd arfaethedig yn unol â'r gofynion statudol, a chyflawnodd hefyd weithgareddau ychwanegol gan gynnwys cyfarfod â'r Cyngor Cymuned. Fodd bynnag, pan gyflwynwyd y cais, cyflwynodd y Cyngor Cymuned bryderon i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am y broses o ymgynghori â'r gymuned.

Fel arfer gorau, dylai datblygwr ymgysylltu gyda, a gwranddo ar yr ymgynghorwyr cymunedol ac ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau, gan helpu i greu ymddiriedaeth a chysylltiadau da â'r ymgynghorwyr cymunedol.

Dywedodd y Cyngor Cymuned nad oedd y datblygwr wedi ymateb i'w cwestiynau ac nad oedd wedi hysbysu arddangosfa gymunedol (fel y cytunwyd yn y cyfarfod). Teimlent y dylai preswylwyr ychwanegol i'r rhai a hysbyswyd fod wedi bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad.

### Ymgynghori ag ymgynghorwyr arbenigol

Rhaid i ddatblygwr ymgynghori ag 'ymgynghorwyr arbenigol' Rhoddir manylion am bwy yw'r rhain a phryd y dylid ymgynghori â nhw, yn [Atodlen 4 i'r DMPWO](#).

Penderfynir pwy yw'r ymgynghorwyr arbenigol drwy brofion disgrifiad o'r datblygiad. Mae Atodiad 2 i'r nodyn canllaw hwn yn cynnwys tabl a chyfres o brofion i helpu i benderfynu pa ymgynghorwyr arbenigol sy'n berthnasol i brosiectau unigol.

Mae gan ymgynghorwyr arbenigol ddyletswydd i ymateb i ymgynghoriadau lle mae'r cais yn dod o fewn eu cylch gwaith o dan Atodlen 4. Mae cael ymgynghorwyr arbenigol o ymateb cyn cyflwyno cais cynllunio yn gallu bod yn fanteisiol iawn o ran sicrwydd y prosiect a pha mor debygol yw y bydd y cais cynllunio'n llwyddo. Lle nad yw ymgynghorwyr arbenigol wedi ymateb i'r ymgynghoriad, dylai'r datblygwr fynd ar ei ôl i roi'r ymateb gwerthfawr hwn cyn penderfynu'n derfynol ar y prosiect. Gall hyn helpu i atal oedi yn ystod penderfynu'r cais.

### Adnabod ymgynghorwyr anstatudol

Gall y datblygwr adnabod ymgynghorwyr ychwanegol, gwerthfawr na restrir hwynt yn yr Atodlen 4. Anogir datblygwyr i ymgynghori'n eang ac ni chyfyngir ar faint o bobl y gall y datblygwr ymgynghori gyda nhw.

### Ymgysylltu gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol

[O dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Gwasanaethau Cyn Ymgeisio\) \(Cymru\) 2016](#) rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru ddarparu gwasanaeth cyn ymgeisio statudol. Bydd y cyngor cyn ymgeisio yn rhoi ymateb ysgrifenedig yn nodi'r polisi cynllunio perthnasol ac unrhyw ystyriaethau eraill yr ystyrir y cynnig yn eu herbyn pe bai cais cynllunio'n cael ei gyflwyno. Am fwy o wybodaeth dylid cysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol.

### Astudiaeth achos – Esblygiad dylunio drwy ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid



Ymgynghorodd y datblygwr â Chomisiynydd Dylunio Cymru (DCFW) yn gynnar wrth ddatblygu cynnig i godi pont droed newydd er mwyn darparu llwybr gwell, mwy diogel a mwy uniongyrchol i gysylltu pentref Llan-ffwyst â chanol tref y Fenni. Er y byddai'r cynnig wedi bod yn ychwanegiad cadarnhaol i'r rhwydwaith teithio egniol, roedd y dylunio yn cynnwys gwaith peirianyddol trwm i ymateb i gyfyngiadau'r safle.

Penderfynwyd adolygu'r cynllun am yr eildro gyda'r dull o roi mwy o ffocws ar y dylunio yn gwella'r cynnig yn sylweddol. Roedd dadansoddiad ac ymateb cliriach i'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd wedi arwain at gynnig mwy addas sy'n gweddu'n well i'w gyd-destun, ac sy'n cyfrannu gwerth da i'r amgylchedd adeiledig.

Yn dilyn adolygiad cychwynnol o'r dylunio gan DCFW, y datblygwr a'r tîm dylunio, cafwyd dull mwy holistig oedd yn ymateb yn fwy cadarnhaol i gyd-destun treftadaeth, tirlun a thopograffi'r safle.



### 3.6 Adnoddau a thechnegau sy'n ychwanegu gwerth at ymgynghori



Gellir yn aml ychwanegu gwerth at y broses ymgynghori statudol drwy gyflawni gweithgareddau ymgynghori ychwanegol. Gwneir rhai argymhellion yn yr adran hon ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac mae datblygwyr yn gwbl rydd i gyflawni unrhyw weithgareddau yr ystyrir ganddynt i fod yn briodol i'w cynllun a'u cymuned.

Mae'n bwysig cydnabod na fydd pawb yr ymgynghorir â hwy'n dewis cymryd rhan. Gall y datblygwr dderbyn gwrthwynebiadau i'r cynllun a bydd rhai pobl efallai'n beirniadu'r ffordd yr ymgysylltwyd â'r gymuned leol. Fodd bynnag, ni ddylai'r datblygwr guddio o'r gymuned gan obeithio y bydd neb yn sylwi ar y cais. Os gwneir hyn mae risg y cyflwynir mwy o ymatebion (a gwrthwynebiadau) gan y gymuned i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar ôl cyflwyno'r cais, gan arwain at oedi yn ystod y cyfnod penderfynu a llai o siawns y bydd y cais yn llwyddo.

#### Y mwyafrif tawel

Ar gyfer y mwyafrif llethol o ymgynghoreion, mae'n ddigon os yw'r datblygwr yn darparu gwybodaeth am y prosiect iddynt ei weld. Cyfeirir at y grŵp hwn fel y 'mwyafrif tawel' yn aml. Gellir gweld hyn pan fydd gwefan yr ymgynghoriad yn derbyn nifer fawr o 'drawiadau', ond dim ond nifer fach o bobl sy'n teimlo'n ddigon cryf am y prosiect i adael unrhyw sylwadau. Dylid cydnabod y mwyafrif tawel fel rhan o'r broses. Dylai'r datblygwr ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl fedru ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn cael ymateb gan y mwyafrif, nid y lleiafrif.

#### Gwneud y broses yn glir

Gwahoddir y cyhoedd i wneud sylwadau ar y cais yn y cam cyn ymgeisio (gan y datblygwr) a hefyd yn y cam ôl-ddilysu (gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol). Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn deall y gwahaniaeth a beth yw eu rôl ym mhob cam o'r broses. Lle'r datblygwr yw gwneud yn glir, yn y cam cyn ymgeisio, bod ymgynghoreion i ymateb i'r datblygwr ac nid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Hefyd, unwaith y bydd cais wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, bydd yn anoddach gwneud newidiadau pellach i'r cais. Felly rhaid rhoi gwybod i'r cyhoedd os ydynt am gael y cyfle gorau i ddylanwadu ar brosiect y dylent gymryd rhan yn ymgynghoriad cyn ymgeisio'r datblygwr.

#### Codi ymwybyddiaeth

Lle codir ymwybyddiaeth dda o'r ymgynghoriad, bydd mwy o gyfranogi ac ymatebion yn y cam cyn ymgeisio sy'n gallu lleihau faint o wrthwynebiadau a wneir ar ôl cyflwyno.

Yn gynharach yn y nodyn canllaw hwn, soniwyd y gellir codi ymwybyddiaeth drwy ehangu'r ardal ymgynghori y tu hwnt i gymdogion cyfagos. Drwy wneud hyn, nid oes angen cyfyngu hysbysyddau safle i ffiniau'r safle, gellir eu dangos mewn ardal ehangach i godi mwy o ymwybyddiaeth.

Yn ogystal â'r gofynion statudol, argymhellir defnyddio technegau 'anstatudol' eraill i godi ymwybyddiaeth, er enghraifft dosbarthu taflenni, dangos gwybodaeth mewn cylchgronau cymunedol, ar hysbysfyrdau a hefyd drwy gysylltu'n rhagweithiol â'r cyfryngau, er enghraifft rhoi datganiad i'r wasg i ddesgiau newyddion lleol.

### Astudiaeth achos – Archfarchnad fwyd, de Cymru – Defnyddio deunyddiau ymgysylltiol i ennill ymateb gwell



Wrth symud ymlaen gyda chais archfarchnad fwyd yn ne Cymru, roedd y datblygwr eisiau codi ymwybyddiaeth o'r cynllun gan ddosbarthu taflen ddarluniadol, ddeniadol i'r gymuned leol.

Roedd y daflen yn rhoi gwybodaeth am y manwerthwr, y cynlluniau arfaethedig, cynllun y siop, swyddi oedd i'w creu, y camau nesaf a manylion ar gyfer cysylltu. Cafodd gerdyn post a stamp arno hefyd ei gynnwys gyda'r daflen i bobl gael rhoi eu sylwadau a'i ddychwelyd yn ddi-dâl.

Derbyniwyd 30 o ymatebion, llawer ohonynt yn gefnogol i'r cynlluniau. Yna cyflawnodd y datblygwr ymgynghoriad statudol yn defnyddio'r dulliau gofynnol o godi ymwybyddiaeth, h.y. hysbysiad safle a llythyrau. Dim ond un ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad statudol.

Adroddwyd ar yr ymgynghoriad statudol ac anstatudol yn yr Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio a derbyniwyd llythyr o gefnogaeth gan y gymuned yn ystod y cyfnod o benderfynu'r cais cynllunio.

Dengys yr astudiaeth achos hon fod darparu deunyddiau ymgysylltiol hawdd eu defnyddio, eu dosbarthu'n eang, a'i gwneud yn haws i bobl ymateb, yn ennyn ymateb gwell.

#### Defnyddio sianeli cyfathrebu sy'n bodoli eisoes

Gall datblygwyr ddefnyddio sianeli cyfathrebu sydd eisoes yn bodoli i godi ymwybyddiaeth ac i ymgysylltu â'r gymuned leol. Mae'r rhain yn fanteisiol oherwydd bydd y gymuned eisoes yn eu defnyddio. Medrant yn aml fod yn ddi-dâl i'w defnyddio a gellir lledaenu gwybodaeth yn eang a chyflym.

Er enghraifft gallai fod yna grŵp preswylwyr lleol sy'n cwrdd yn rheolaidd a gallai'r datblygwr ofyn am gael mynychu un o'u cyfarfodydd. Mae adnoddau defnyddiol eraill yn cynnwys sianeli digidol, cylchgronau / papurau bro lleol, gwefannau cymunedol penodol, Twitter a thudalennau Facebook, sydd weithiau gyda miloedd o breswylwyr lleol yn eu dilyn. Yn aml iawn, bydd y bobl sy'n rhedeg y gwefannau / fforymau hyn yn hapus i gynnwys doler i wefan yr ymgynghoriad i roi gwybod i'w dilynwyr am yr ymgynghoriad. Gall yr adnoddau hyn, sydd hefyd yn ddi-dâl, gyrraedd yn bell ac annog cyfranogiad gan bobl na fyddent fel arall yn cymryd rhan.

#### Deunyddiau ymgysylltu

Gall deunyddiau ymgynghori wedi eu drafftio a'u dylunio'n dda annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses ac, yn ei dro, ennill ymateb gwell a mwy cytbwys.

Gallai'r datblygwr ystyried pwy sy'n debygol o ddarllen y deunyddiau ymgynghori a defnyddio iaith syml, osgoi byrfoddau a gwneud y wybodaeth yn hawdd ei deall. Yr her yw helpu'r cyhoedd i ddeall pam fod y cynnig yn cael ei wneud a chreu darlun o'r hyn fydd yn digwydd os caniateir y cais. Fel hyn gellir osgoi unrhyw beth annisgwyl yn codi i'r gymuned nes ymlaen.

**Hysbysiad safle**

Fel rhan o'r ymgynghori statudol, mae'n ofynnol i ddatblygwyr arddangos a dosbarthu hysbysiad safle. Rhaid i'r hysbysiad safle gynnwys y wybodaeth a osodir allan yn y ddeddfwriaeth ac yn Atodlen 1B o 'Cyhoeddusrwydd ac Ymgynghori cyn Gwneud Cais am Ganiatâd Cynllunio: Hysbysiad o dan Erthyglau 2C a 2D' - DMPWO. Rhaid darparu fersiynau Saesneg a Chymraeg.


Mae gan y datblygwr ryddid i arddangos y wybodaeth fel y gwêl yn briodol. Gellir dylunio'r hysbysiad safle i ddal y llygad, cynnwys logos y cwmni a chynllun lleoliad y safle i helpu'r darllenwr i ddeall lle'n union y mae'r safle. Rhoddir enghraifft isod.

Mae'r hysbysiad safle'n mynd yn uniongyrchol i gymdogion gerllaw'r safle ac i ymgynghoreion cymunedol. Cynghorir cynnwys llythyr eglurhaol gyda'r hysbysiad safle i roi'r cyd-destun o ran pam eu bod yn derbyn yr hysbysiad safle, a'i bwrpas. Mae'n fanteisiol i'r llythyr hwn fod yn Saesneg ac yn Gymraeg.

I hysbysu ymgynghoreion arbenigol, rhaid i'r datblygwyr anfon y wybodaeth a osodir allan yn Atodlen 1C o Erthygl 2D – Ymgynghori Cyn Gwneud Cais am Ganiatâd Cynllunio – DMPWO. Rhaid ei darparu yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Mae hefyd yn arfer da i roi copi o'r hysbysiad safle i'r ymgynghoreion arbenigol.

▼ Enghraifft o hysbysiad safle



▲ Enghraifft o wefan ymgynghori

**Arddangos dogfennau'r cais**

Fel rhan o'r gofynion ymgynghori statudol mae'n ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori ar fersiwn ddrafft o bob un o'r dogfennau cais cynllunio. Caiff ei gydnabod bod angen i elfennau o ddogfennau'r cais, oherwydd eu natur, gael eu geirio'n dechnegol. Fodd bynnag, gallai fod yn syniad da cynnwys crynodeb annhechnegol i gynorthwyo'r darllenwr.

Yn ogystal, os yw'r deunyddiau'n cael eu rhoi ar wefan, gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys cyflwyniad i'r dogfennau fel bo'r darllenwr yn gallu deall beth yw pwrpas pob dogfen a phenderfynu a yw'n berthnasol iddynt eu lawrlwytho a'u darllen.

Rhoddir enghraifft uchod o wefan ymgynghori hawdd ei darllen, gyda chyflwyniad i'r dogfennau.

### Cyfarfod â'r gymuned

Mae ymgysylltu 'wyneb yn wyneb' â'r gymuned yn ffordd draddodiadol ac effeithiol o ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys cyflwyniadau, arddangosfeydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio, gweithdai gyda rhanddeiliaid / tîrffeddiawyr, grwpiau cyswllt cymuned, paneli cyngori arbenigol, ac yn y blaen.

Gall fod yn anodd weithiau i bobl ddeall cynllun ar sail y wybodaeth am y cais ar y wefan ymgynghori. Yn aml iawn bydd gan bobl gwestiynau neu byddant yn cael trafferth dehongli'r wybodaeth heb rywfaint o gyfarwyddyd. Gallai fod yn syniad da felly cynnal digwyddiad i bobl gael gofyn cwestiynau. Yn bwysig, mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r datblygwr egluro pam eu bod yn cyflwyno'r cynigion a sut y gall y gymuned elwa o'r cynllun.

Mae'r math yma o ymgysylltu'n rhoi cyfle i gael trafodaethau manwl o'r materion dan sylw ac yn gyfle hefyd i ddatrys problemau a chasglu gwybodaeth ansoddol dda. Ar gyfer llawer o gynlluniau, mae cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb yn fanteisiol.

### Adnoddau digidol

Mae'r defnydd cynyddol o gyfryngau digidol yn newid y ffordd y mae pobl yn cysylltu a chydweithredu yng nghyd-destun cymdeithas yn gyffredinol, yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae pobl yn disgwyl i wybodaeth fod ar gael ar-lein ac mae'r adnoddau digidol ar gyfer ymgysylltu'n dod yn fwy effeithiol. Un o fanteision y gofynion ymgynghori cyn ymgeisio statudol yw bod datblygwyr yn cael eu hannog i ddarparu gwefan ar gyfer y prosiect i bobl gael gweld y deunyddiau ymgynghori.

Mae'n bwysig cael gwefan prosiect-benodol, hawdd ei defnyddio sy'n gydnavs â ffonau clyfar. Byddai prynu enw parth unigryw dim ond ar gyfer y prosiect yn ddefnyddiol. Lle mae datblygwr yn defnyddio dolen i wefan eu cwmni i gyflwyno'r deunyddiau ymgynghori, gallai fod yn anodd i ddarllenwyr ddod o hyd i'r wybodaeth y maent yn chwilio amdani.

Mae defnyddio adnoddau digidol fel gwefannau, microwefannau a chyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd sbectwm ehangach o'r gymuned ac yn gadael i bobl rannu gwybodaeth. Dylid ystyried bod adnoddau digidol yn rhan o'r broses ymgynghori. Er hynny, ni ddylid dibynnu'n llwyr arnynt. Cyfuniad o adnoddau digidol a gweithgareddau wyneb yn wyneb yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu â chymuned gyfan.

Yn ogystal â defnyddio fformatau digidol i ddarparu gwybodaeth, gall datblygwyr elwa o fonitro'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn ffordd ddefnyddiol o gael syniad o'r drafodaeth leol. Gall monitro hashnodau a pha mor aml y defnyddir rhai geiriau helpu i wneud hyn. Gellir cynnwys a chofnodi'r sgyrsiau a gynhelir ar y fforymau hyn yn yr Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio (Adroddiad PAC).

### Y cyfryngau cymdeithasol a sylw yn y wasg

Cyngorir y dylai'r datblygwr fod yn ymwybodol o, a pharod am, y cyfryngau cymdeithasol a sylw yn y wasg. Gallai hyn fod yn gadarnhaol neu'n negyddol gan ddiybennu ar argraffiadau'r gymuned leol o'r datblygiad a pha mor effeithiol y mae'r datblygwr yn ymgysylltu â'r gymuned. Gall datblygwr fod yn rhagweithiol drwy siarad â'r wasg a pharatoi datganiadau i lansio'r prosiect mewn ffordd ystyriol i'r cyfryngau.

Ar gyfer rhai prosiectau, mae cymunedau wedi defnyddio 'gweithredu drwy'r we' i lobbio yn erbyn cynllun. Mae grwpiau'n defnyddio dulliau cyfathrebu ar-lein fel y cyfryngau cymdeithasol i hwyluso cyfathrebu cynt a mwy effeithiol â'r gymuned i greu ymgrychoedd. Yn aml iawn, mae'r wasg wedyn yn eu codi ac yn rhoi sylw iddynt.

Yn y sefyllfa hon mae'n bwysig bod y datblygwr yn aros yn dryloyw ac yn rhoi gwybodaeth i'r gymuned. Os yw datblygwr yn anwybyddu cwestiynau, neu'n methu â rhoi gwybodaeth glir, gall wneud niwed i enw da'r datblygwr ac i siawns y cais cynllunio o lwyddo.

### 3.7 Cofnodi, ymateb ac adrodd



#### Gwranddo ac ymateb

O dan y ddeddfwriaeth mae'n ofynnol i ddatblygwr roi crynodeb o'r holl faterion a godir mewn ymateb i'r ymgynghoriad statudol a dangos sut y rhoddwyd sylw iddynt.

Dylid cofnodi ac ystyried pob sylw er mwyn nodi'r mater sy'n cael ei godi. Lle mae ymatebwyr yn codi mwy nag un mater, dylid ystyried pob mater ar wahân.

Lle bynnag y bo hynny'n bosib, bydd sylwadau ac awgrymiadau'n bwydo i'r cynlluniau terfynol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd yn bosib i rai pryderon gan y gymuned gael eu datrys drwy'r ymarfer ymgynghori ac y bydd gan bobl weithiau farn wahanol am bethau. Lle nad yw newidiadau'n cael eu gwneud ar sail yr adborth a dderbyniwyd, rhaid rhoi cyfiawnhad am hynny yn yr Adroddiad PAC.

Mae gwranddo'n ddiffuant ar sylwadau a godir a, lle bo hynny'n bosib, diwygio'r cynigion i adlewyrchu'r adborth, nid yn unig yn creu cynllun sydd wedi'i gyd-lunio gan y gymuned leol, gall hefyd helpu i leihau gwrthwynebiadau ac ennill cefnogaeth i'r cynlluniau.

### Astudiaeth achos – Hen Dafarn, de-ddewyrain Cymru – Prosiect dan ddylanwad y gymuned



Fel rhan o gynnydd i dymchwel hen dafarn a chodi tai ar y safle, cyflawnodd y datblygwr gyfres o weithgareddau ymgynghori dros gyfnod ymgynghori mewn sawl cam. Roedd hyn yn cynnwys: cyfarfodydd â rhanddeiliaid, gweithdy dylunio (lle daeth preswylwyr cyfagos a chynrychiolwyr cymunedol), arddangosfa gyhoeddus, nifer o dechnegau codi ymwybyddiaeth (hysbysebu yn y wasg, papurau bro ac yn y blaen) a'r ymgynghoriad statudol ei hun. Drwy'r ymgynghoriad tri cham hwn (dwy rownd ymgynghori anstatudol ac un statudol), llwyddodd y datblygwr i ddatrys y materion a godwyd a diwygio'r cynllun i ddarparu cynnydd oedd yn dderbyniol i'r gymuned.

Yr adborth gan y gymuned oedd y byddent yn hoffi gweld dyluniad y datblygiad newydd yn gweddu i'r ardal newydd, drwy ddefnyddio deunyddiau tebyg, cadw'r tai ar uchder tebyg i dai cyfagos a dim balconïau na ffenestri dormer ar ochr y stryd i leddfu pryderon am edrych dros dai eraill. Tynnwyd sylw hefyd at fod angen tai i deuluoedd yn yr ardal. Cafodd y cynllun ei newid o 24 o fflatiau i 10 o gartrefi i deuluoedd gyda dyluniad diwygiedig.

O ganlyniad, dim ond un gwrthwynebiad a gafwyd gan y gymuned yn ystod y cyfnod o benderfynu'r cais a chafodd y cais ei ganiatáu.

### Ymatebion hwyr

O dan y gofynion ymgynghori statudol, rhaid i ddatblygwyr ymgynghori am 28 diwrnod o leiaf. Fodd bynnag, mae gan ddatblygwyr ryddid i ystyried cyfnod hirach os teimlir bod hynny'n briodol neu os gofynnir iddynt gan ymgynghoreion i ymestyn y cyfnod ymgynghori.

Nid yw'n ofynnol i ddatblygwyr ystyried sylwadau a dderbynnir ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Fodd bynnag, mae'n arfer da ystyried a chynnwys ymatebion hwyr yn yr Adroddiad PAC.

### Pwysigrwydd tystiolaeth

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd yr Adroddiad PAC. Mae'r Adroddiad PAC yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r ymgynghori a wnaed ac yn dangos sut y mae'r datblygwr wedi cydymffurfio â'r gofynion ymgynghori cyn ymgeisio statudol.

Wrth ddatblygu'r dull ymgynghori, dylai'r datblygwr ystyried sut y bydd ymatebion yn cael eu cofnodi ynghyd â manylion am y camau a gymerwyd wedyn, a'r rhesymau am wneud / peidio â gwneud newidiadau mewn ymateb i sylwadau. Mae hyn yn cynnwys cofnodi cyfarfodydd, trafodaethau ac ymatebion i'r ymgynghoriad (statudol ac anstatudol). Mae'n hanfodol peidio â cholli ymatebion gan unrhyw un, yn enwedig lle disgwylir nifer fawr o ymatebion fel rhan o broses ymgynghori.

Mae angen ystyried diogelu data a dylid gadael allan manylion unrhyw unigolion, fel enwau ymgynghoreion unigol (gellir cynnwys busnesau neu gynrychiolwyr proffesiynol). Bydd angen golygu unrhyw wybodaeth bersonol yn yr Adroddiad PAC a dylai datblygwyr sicrhau eu bod yn storio data personol yn ddiogel.

Pan fydd Adroddiad PAC wedi cael ei roi at ei gilydd yn dda gan ddangos yn glir a rhesymegol sut y cafodd y ddeddfwriaeth ei dilyn, mae'n llai tebygol y bydd problemau'n codi fel rhan o'r broses ddilysu. Mae hefyd yn bwysig dangos pa ymgynghori anstatudol a ddigwyddodd er mwyn rhoi darlun llawn.

Rhoddir canllawiau pellach ar beth sydd angen ei gynnwys yn yr Adroddiad PAC gan Lywodraeth Cymru yn Atodiad 1 y llythyr '[Gweithdrefnau rheoli datblygu newydd](#)' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2016.

### Adrodd yn ôl

Gallai fod yn ddefnyddiol i'r gymuned pe bai'r datblygwr yn rhoi adborth ar ba sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad cyn ymgeisio ac ar unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynllun o ganlyniad i'r sylwadau hyn. Gall adrodd yn ôl i'r gymuned gynnwys dosbarthu cylchlythyr, diweddarau gwefan yr ymgynghoriad, gwneud datganiad i'r wasg a chyfarfod â'r Cynghorwyr a'r Cyngor Cymuned lleol i'w diweddarau fel y medrant raeadru'r wybodaeth i'r gymuned. Mae hefyd yn ddefnyddiol parhau i gyfathrebu'n dilyn cyflwyno'r cais cynllunio a'r holl ffordd trwodd i'r cyfnod adeiladu.

## 04 Casgliad

### 4.1 Myfrio ar y broses











Mae ymgysylltu'n broses ddwy ffordd. Drwy gyflwyno'r gofynion ymgynghori cyn ymgeisio statudol o dan y Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru'n annog datblygwyr a chymunedau i weithio gyda'i gilydd i greu datblygiadau llwyddiannus ar draws Cymru.

Mae'r nodyn canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth a chynghor i helpu i dywys datblygwyr i gael y mwyaf allan o'r broses ymgynghori cyn ymgeisio ond hefyd, yn anad dim, yn cwrdd â'u rhwymedigaethau statudol.

Fel y noda'r nodyn hwn, mae nifer o sialensiau a chyfleoedd i ymgynghori ac ymgysylltu'n llwyddiannus. Drwy ddefnyddio strategaethau ymgynghori arfer gorau, bydd y gymuned yn gallu cymryd rhan yn y broses, cynorthwyo i oresgyn unrhyw faterion cynllunio sy'n codi a gwella'r siawns o gael caniatâd cynllunio.

O'i wneud yn effeithiol, bydd ymgynghori da:

-  Yn codi ymwybyddiaeth a chreu dealltwriaeth
-  Yn cwrdd â gofynion statudol
-  Yn gymesur i'r cynllun
-  Yn glir a chryno
-  Yn dangos pwrpas
-  Yn effeithiol ac yn ychwanegu gwerth
-  Yn amserol ac ystyrlon
-  Yn cynnwys y gymuned gyfan

---

# Atodiad 1:

## Rhestr gwirio cydymffurfiaeth

Gellir defnyddio'r rhestr wirio hon i helpu i sicrhau bod y datblygwr wedi cydymffurfio â phob un o'r canlynol:

- Adran 61Z o Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n cyflwyno'r gofyniad i gyflawni ymgynghoriad cyn ymgeisio; a
- DMPWO Rhan 1A 'Gofyniad i gyflawni ymgynghoriad cyn ymgeisio 2B'.

I gwrdd â'r gofynion, rhaid gwneud popeth yn y rhestr wirio. Er mwyn hwylustod, mae'r rhestr wedi'i threfnu'n adrannau syml.

| Tasgau                                  |   |   |
|---|---|---|
| Adnabod pwy yw'r ymgynghoreion statudol |   |   |
| Perchnogion a deiliaid                  | Rhaid i'r datblygwr anfon copi o'r hysbysiad safle drwy lythyr at berchennog neu ddeiliad unrhyw dir sydd gerllaw'r tir y mae'r cais arfaethedig yn berthnasol iddo a chyfeirio'r llythyr at 'y perchennog a / neu ddeiliad'.<br><br>Efallai y bydd datblygwyr am ystyried manteision rhoi cymaint o gyhoedduswydd â phosib yn y cam cyn ymgeisio.  | Ydy chi wedi adnabod ac ymgynghori â phob perchennog a deiliad tir? <input type="checkbox"/><br><br>Oedd y llythyr yn cynnwys yr hysbysiad safle wedi'i gyfeirio at 'y perchennog a / neu ddeiliad'. <input type="checkbox"/> |
| Ymgynghoreion cymunedol                 | Mae'n ofynnol i ddatblygwyr hysbysu:<br><ul style="list-style-type: none"><li>Pob cyngor cymuned / plwyf (gan gynnwys cyngorau tref a chymuned) yn yr ardal lle bwriedir lleoli'r datblygiad arfaethedig; a / neu</li><li>Pob cynghorydd (aelod lleol) yn cynrychioli ward etholiadol lle bwriedir lleoli'r datblygiad arfaethedig.</li></ul> Os bwriedir lleoli'r datblygiad arfaethedig mewn ardal lle mae mwy nag un cyngor tref neu gymuned, dylid hysbysu'r ddau.<br><br>Os yw'r datblygiad arfaethedig yn pontio nifer o wardiau etholiadau, bydd angen hysbysu'r holl gynghorwyr lleol yn y wardiau hynny.<br><br>Dylid hysbysu ymgynghoreion cymunedol drwy lythyr yn cynnwys yr un wybodaeth ag yn yr hysbysiad safle (wele isod am fanylion am yr hysbysiad safle). | Ydych chi wedi adnabod ac ymgynghori â'r holl ymgynghoreion cymunedol? <input type="checkbox"/>   |
| Ymgynghoreion arbenigol                 | Mae'n ofynnol i ddatblygwyr roi gwybod am y cynigion datblygu i ymgynghoreion arbenigol.<br><br>Mae manylion am yr ymgynghoreion arbenigol a phryd y dylid ymgynghori â nhw yn Atodlen 4 i'r DMPWO – wele Atodiad 2 i'r nodyn hwn.<br><br>Bydd yr ymgynghoreion arbenigol yn cael eu hysbysu drwy lythyr yn cynnwys y wybodaeth a roddir yn Atodlen 1C (wele isod am fanylion am yr hysbysiad safle ac Atodlen 1C).   | Ydych chi wedi adnabod ac ymgynghori â'r holl ymgynghoreion arbenigol? <input type="checkbox"/>   |

| Tasgau                                       |   |  |
|--|---|--|
| Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad statudol |   |  |
| Hysbysiad safle – Atodlen 1B                 | <b>Hysbysiad safle – Atodlen 1B</b><br>Rhaid i'r hysbysiad safle gynnwys y wybodaeth a osodir allan yn 'Atodlen 1B: Cyhoedduswydd ac Ymgynghori cyn Gwneud Cais am Ganiatâd Cynllunio: Hysbysiad o dan Erthyglau 2C a 2D' - DMPWO.<br><br>Rhaid darparu fersiwn Saesneg a Chymraeg o'r hysbysiad safle.<br><br><b>Arddangos yr hysbysiad safle</b><br>Rhaid arddangos yr hysbysiad safle mewn un lle o leiaf ar, neu gerllaw, y tir y mae'r cais yn berthnasol iddo.<br><br>Rhaid i'r hysbysiad safle fod yn hawdd ei weld a'i ddarllen gan y cyhoedd.<br><br>Rhaid arddangos yr hysbysiad safle am 28 diwrnod o leiaf.<br><br>Os yw'r datblygwyr wedi cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad safle a, lle bo angen, i godi un newydd os yw'n cael ei dynnu i lawr, ei guddio neu ei aflunio cyn i'r cyfnod cyhoedduswydd o 28 diwrnod ddod i ben, ystyrir y bydd wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol. | <b>Y wybodaeth i'w chynnwys yn yr hysbysiad safle</b><br>Mae'r hysbysiad safle wedi'i greu'n cynnwys y wybodaeth yn Atodlen 1B. <input type="checkbox"/><br><br>Mae fersiynau Saesneg a Chymraeg wedi cael eu darparu. <input type="checkbox"/><br><br><b>Arddangos yr hysbysiad safle</b><br>Mae'r hysbysiad safle wedi cael ei arddangos mewn un lle o leiaf gerllaw'r safle. <input type="checkbox"/><br><br>Mae'r hysbysiad safle'n hawdd ei weld a'i ddarllen gan y cyhoedd. <input type="checkbox"/><br><br>Mae'r hysbysiad safle wedi cael ei arddangos am 28 diwrnod o leiaf. <input type="checkbox"/><br><br>Nid oedd / roedd angen codi hysbysiad safle newydd. <input type="checkbox"/> |
| Atodlen 1C                                   | Rhaid i'r datblygwr hysbysu'r ymgynghoreion arbenigol yn ysgrifenedig o'r cais arfaethedig. Rhaid i'r llythyr gynnwys y wybodaeth a roddir yn yr hysbysiad yn Atodlen 1C o dan Erthygl 2D – Ymgynghori Cyn Gwneud Cais am Ganiatâd Cynllunio - DMPWO.<br><br>Rhaid i'r datblygwr amgau pob un o'r dogfennau cais drafft (wele'r manylion isod) gyda'r hysbysiad, neu roi dolen i wefan lle gellir dod o hyd i'r dogfennau hynny.<br><br>Dalier sylw – Anogir y datblygwr i ddarparu'r wybodaeth yma i ymgynghoreion arbenigol mewn ffurf electronig (h.y. e-bost) ac, mewn achosion lle mae'r wybodaeth yn cael ei phostio at ymgynghoreion statudol, dylai datblygwyr ystyried defnyddio dosbarthiad cofnodedig.   | Mae'r ymgynghoreion arbenigol wedi derbyn hysbysiad drwy lythyr o'r cais arfaethedig. <input type="checkbox"/><br><br>Roedd y llythyr / hysbysiad yn cynnwys y wybodaeth a roddir yn yr hysbysiad yn Atodlen 1C. <input type="checkbox"/><br><br>Mae'r ymgynghoreion arbenigol wedi derbyn dolen i gopi caled o ddogfennau'r cais drafft. <input type="checkbox"/>   |
| Y cyfnod ymgynghori                          |   |  |
| Y cyfnod ymgynghori                          | Rhaid i'r datblygwr ymgynghori am o leiaf 28 diwrnod.   | Mae'r cyfnod ymgynghori wedi rhedeg am 28 diwrnod o leiaf. <input type="checkbox"/>  |

| Tasgau                          |  |  |
|---------------------------------|--|--|
| Deunyddiau'r ymgynghoriad       |  |  |
| Deunyddiau'r ymgynghoriad       | <p>Rhaid i ddatblygwyr drefnu bod y wybodaeth ganlynol ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad yng nghyffiniau'r safle, neu ar-lein, am 28 diwrnod o leiaf (gan ddechrau pan godir yr hysbysadau safle):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yr holl wybodaeth y byddai angen ei chyflwyno fel rhan o gais cynllunio ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth ar y ffurflen gais cynllunio berthnasol, ac eithrio'r tystysgrifau perchnogaeth.</li> <li>Cynlluniau wrth raddfa, gyda saeth i'r gogledd, i nodi'r tir y mae'r cais yn berthnasol iddo.</li> <li>Datganiad Dylunio a Mynediad.</li> <li>Unrhyw wybodaeth y byddai ei hangen i gydymffurfio ag unrhyw ofynion dilysu lleol gan yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol.</li> </ul>   | <p>Cafodd yr holl ddogfennau cais cynllunio drafft eu darparu fel y disgrifiwyd hwynt.</p> <input type="checkbox"/>                                      |
| Gweld deunyddiau'r ymgynghoriad | <p>Rhaid i'r hysbysiad safle nodi lleoliad lle gellir gweld dogfennau'r cais drafft. Gellir darparu'r dogfennau ar ffurf copïau caled, neu ar-lein.</p> <p>Mewn achosion lle mae'r datblygwr wedi darparu i'r wybodaeth fod ar gael ar wefan, gallai'r lleoliad lle gallai'r cyhoedd ddod i weld y wybodaeth fod yn llyfrgell neu'n adeilad cyhoeddus arall lle bydd cyfleusterau cyfrifiadurol ar gael i'r cyhoedd.</p> <p>Os nad yw'r datblygwr wedi trefnu bod y wybodaeth berthnasol ar gael ar wefan, bydd angen darparu copi caled. Byddai adeiladau cyhoeddus fel llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a chanolfannau hamdden yn lleoedd priodol.</p> <p>Mae gan y datblygwr hyblygrwydd o ran lle i'w ddewis ond dylai o leiaf ganiatáu mynediad i'r cyhoedd yn ystod oriau gwaith arferol am y cyfnod hysbysu llawn o 28 diwrnod.</p> | <p>Roedd yr holl ddogfennau cais cynllunio drafft ar gael i'w gweld ar-lein / mewn adeilad cymunedol am 28 diwrnod o leiaf.</p> <input type="checkbox"/> |
| Gwneud sylwadau                 |  |  |
| Manylion cyswllt                | <p>Rhaid i'r datblygwr nodi sut y gall unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar y datblygiad arfaethedig gysylltu â nhw, h.y. cyfeiriad post neu gyfeiriad e-bost.</p>  | <p>Cafodd fanylion cyswllt eu rhoi ar yr hysbysadau perthnasol.</p> <input type="checkbox"/>   |

| Tasgau                            |   |  |
|-----------------------------------|---|--|
| Adrodd                            |   |  |
| Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio | <p>Rhaid i'r datblygwr gyflwyno Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio (Adroddiad PAC) fel bo'r cais cynllunio'n cael ei ddilysu.</p> <p>Mae gan y datblygwr hyblygrwydd i benderfynu beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno'r adroddiad ymgynghori cymunedol cyn ymgeisio ar yr amod ei fod yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Copi o'r hysbysiad safle.</li> <li>Datganiad bod yr hysbysiad safle wedi cael ei arddangos yn unol â'r gofynion statudol, h.y. mewn un lle o leiaf ar, neu gerllaw, safle'r datblygiad am 28 diwrnod o leiaf.</li> <li>Copi o'r hysbysiad a roddwyd i berchnogion a deiliaid tir cyfagos, a rhestr o'r bobl hynny.</li> <li>Copïau o'r holl hysbysadau a roddwyd i gynghorwyr, cynghorau tref a chymuned, ac i ymgynghoreion arbenigol.</li> <li>Crynodeb o'r holl faterion a godwyd mewn ymateb i'r cyhoeddusrwydd statudol, ac yn cadarnhau a roddwyd sylw i'r materion hynny ac, os do, pa gamau a gymerwyd.</li> <li>Copïau o'r holl ymatebion a dderbyniwyd gan ymgynghoreion arbenigol gydag eglurhad o sut y mae'r datblygwr wedi rhoi sylw i bob ymateb.</li> <li>O dan y ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, rhaid i gyfeiriadau a gwybodaeth gyswllt arall am unigolion preifat gael eu golygu yn yr Adroddiad PAC cyn ei gyflwyno.</li> <li>Os yw datblygwyr yn cyflawni gweithgareddau ymgynghori neu gyhoeddusrwydd sy'n fwy na'r lleiafswm sy'n statudol ofynnol, anogir hwynt i adrodd ar ganlyniad yr ymgysylltu cyn ymgeisio hwn yn yr Adroddiad PAC.</li> </ul> | <p>Mae Adroddiad PAC wedi cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais.</p> <p>Mae'r Adroddiad PAC yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Copi o'r hysbysiad safle.</li> <li>Datganiad bod yr hysbysiad safle wedi cael ei arddangos yn unol â'r gofynion statudol.</li> <li>Copi o'r hysbysadau a roddwyd i berchnogion a deiliaid tir, cynghorwyr, cynghorau tref a chymuned, ac ymgynghoreion arbenigol.</li> <li>Crynodeb o'r holl faterion a godwyd a sut y cawsant eu datrys.</li> <li>Copïau o'r holl ymatebion a dderbyniwyd gan ymgynghoreion arbenigol ac eglurhad o sut y rhoddwyd sylw iddynt.</li> <li>Gwybodaeth gyswllt wedi'i golygu.</li> <li>•Ymgynghori anstatudol.</li> </ul> <input type="checkbox"/> |

---

## Atodiad 2:

# Adnabod ymgylgoreion arbenigol

Rhaid i ddatblygwyr ymgylgoreion ag 'ymgylgoreion arbenigol' sy'n cynnwys y rhestr o ymgylgoreion yn Atodlen 4 i'r DMPWO.

Bydd penderfynu a oes ymgylgoreion ag ymgylgoreion penodol neu beidio'n dibynnu a yw'r datblygiad arfaethedig yn disgyn i'r categori perthnasol yn ail golofn y tabl yn Atodlen 4.

Er mwyn penderfynu pa ymgylgoreion arbenigol y mae'n rhaid i'r datblygwr ymgylgoreion â nhw, medrant ateb y cwestiwn 'A oes angen ymgylgoreion' yn y tabl drosodd, yn erbyn pob disgrifiad o ddatblygiad. Lle mai 'oes' yw'r ateb, dylid ychwanegu'r ymgylgoreion at y rhestr. Lle mai 'nag oes' yw'r ateb, nid oes angen ychwanegu'r ymgylgoreion at y rhestr yn yr achos hwn. Os yw'r datblygwr yn ansicr, y peth gorau fyddai cynnwys yr ymgylgoreion i fod yn saff.

Os yw'r datblygwr wedi adnabod ymgylgoreion ychwanegol y byddai'n hoffi ymgylgoreion â nhw, gellir eu hychwanegu i'r tabl.

Unwaith y bydd y tabl yn gyflawn, bydd y rhestr o ymgylgoreion arbenigol wedi cael ei chreu.



| Para | Disgrifiad o Ddatblygiad  | Ymgynghorai  | A oes angen ymgynghori? | Ymgynghorai sydd wedi ei adnabod |
|------|---|--|-------------------------|----------------------------------|
| (a)  | Datblygiad sy'n debygol o effeithio ar dir yn ardal awdurdod cynllunio lleol arall.   | Yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol   |                         |                                  |
| (b)  | Datblygiad, yng nghyswllt yr hwn y mae cais am ganiatâd cynllunio wedi'i wneud i Weinidogion Cymru o dan adran 293A o Ddeddf 1990 (1) (datblygiad brys y Goron: cais), lle mae'r datblygiad hwnnw'n debygol o effeithio ar dir yn ardal cyngor cymuned.   | Y cyngor cymuned   |                         |                                  |
| (c)  | Datblygiad mewn ardal sydd wedi'i hysbysu i'r awdurdod cynllunio lleol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i bwrpas y ddarpariaeth hon oherwydd bod sylweddau gwenwynig, hynod ymbelydrol, ffrwydrol neu fflamadwy iawn yn bresennol gerllaw (heblaw ar safle niwclear perthnasol) ac sy'n cynnwys darparu— (i) tai preswyl; (ii) mwy na 250 metr sgwâr o lawr manwerthu; (iii) mwy na 500 metr sgwâr o lawr swyddfa; neu (iv) mwy na 750 metr sgwâr o lawr i'w ddefnyddio ar gyfer proses ddiwydiannol, neu sy'n debygol fel arall o arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl a fydd yn gweithio yn, neu'n ymweld â'r ardal a hysbyswyd. | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch   |                         |                                  |
| (d)  | Datblygiad mewn ardal sydd wedi'i hysbysu i'r awdurdod cynllunio lleol gan y Swyddfa Dros Reoli Niwclear i bwrpas y ddarpariaeth hon oherwydd bod sylweddau gwenwynig, hynod ymbelydrol, ffrwydrol neu fflamadwy iawn yn bresennol gerllaw ar safle niwclear perthnasol ac sy'n cynnwys darparu— (i) tai preswyl; (ii) mwy na 250 metr sgwâr o lawr manwerthu; (iii) mwy na 500 metr sgwâr o lawr swyddfa; neu (iv) mwy na 750 metr sgwâr o lawr i'w ddefnyddio ar gyfer proses ddiwydiannol, neu sy'n debygol fel arall o arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl a fydd yn gweithio yn, neu'n ymweld â'r ardal a hysbyswyd.                       | Y Swyddfa Dros Reoli Niwclear  |                         |                                  |
| (e)  | Datblygiad sy'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol ym maint neu newid sylweddol i gymeriad traffig— (i) sy'n dod allan i neu'n troi oddi ar gefnfordd; neu (ii) sy'n defnyddio croesfan dros reilffordd.   | Gweiniogion Cymru<br>Gweithredwr y rhwydwaith sy'n cynnwys y rheilffordd dan sylw, a Gweiniogion Cymru                               |                         |                                  |
| (f)  | Datblygiad sy'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol ym maint neu newid sylweddol i gymeriad traffig sy'n dod allan i neu'n troi oddi ar ffordd ddosbarthiadol neu briffordd arfaethedig   | Yr awdurdod priffyrdd lleol perthnasol   |                         |                                  |
| (g)  | Datblygiad sy'n debygol o effeithio ar wella neu greu ffordd ddosbarthiadol neu briffordd arfaethedig.  | Yr awdurdod priffyrdd lleol perthnasol   |                         |                                  |
| (h)  | Datblygiad sy'n golygu— (i) creu, gosod allan neu newid unrhyw ddull mynediad at briffordd (heblaw cefnfordd); neu (ii) creu priffordd neu ddull mynediad preifat at eiddo sy'n rhoi mynediad at ffordd lle mae gorchymyn tollffordd mewn grym.   | Yr awdurdod priffyrdd lleol perthnasol<br>Yr awdurdod priffyrdd lleol perthnasol, ac yn achos ffordd gyda chonsesiwn, y consesiynydd |                         |                                  |

| Para | Disgrifiad o Ddatblygiad  | Ymgynghorai  | A oes angen ymgynghori? | Ymgynghorai sydd wedi ei adnabod |
|------|---|--|-------------------------|----------------------------------|
| (i)  | Datblygiad sy'n golygu neu'n cynnwys gosod allan neu greu stryd newydd.   | Yr awdurdod priffyrdd lleol perthnasol   |                         |                                  |
| (j)  | Datblygiad, heblaw am ddatblygiad deiliad tŷ, mewn ardal sydd wedi'i hysbysu i bwrpas y ddarpariaeth hon i'r awdurdod cynllunio lleol gan yr Awdurdod Glo oherwydd risg o dir ansefydlog o ganlyniad i dyllu glo.   | Yr Awdurdod Glo  |                         |                                  |
| (k)  | Datblygiad yn golygu neu'n cynnwys mân waith.   | Corff Adnoddau Naturiol Cymru  |                         |                                  |
| (l)  | (i) Datblygiad sy'n cael effaith ffisegol uniongyrchol ar heneb gofrestredig.<br>(ii) Datblygiad sy'n debygol o fod yn weladwy o heneb gofrestredig ac sy'n cwrdd ag un o'r meini prawf canlynol – a) mae o fewn pellter o 0.5 cilometr o unrhyw bwynt o berimedr heneb gofrestredig; b) mae o fewn pellter o un cilometr o berimedr heneb gofrestredig ac yn 15 metr neu fwy o uchder, neu gydag arwynebedd o 0.2 hectar neu fwy; c) mae o fewn pellter o 2 cilometr o berimedr heneb gofrestredig ac yn 50 metr neu fwy o uchder, neu gydag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy; ch) mae o fewn pellter o 3 cilometr o berimedr heneb gofrestredig ac yn 75 metr neu fwy o uchder, neu gydag arwynebedd o 1 hectar neu fwy; neu dd) mae o fewn pellter o 5 cilometr o berimedr heneb gofrestredig ac yn 100 metr neu fwy o uchder, neu gydag arwynebedd o 1 hectar neu fwy. (iii) Datblygiad sy'n debygol o effeithio ar safle gardd neu barc hanesyddol cofrestredig, neu ei osodiad; (iv) Datblygiad o fewn tirlun hanesyddol cofrestredig sydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol; neu (v) Datblygiad sy'n debygol o gael effaith ar werth cyffredinol aruthrol Safle Treftadaeth Byd. | Gweiniogion Cymru  |                         |                                  |
| (m)  | Datblygiad yn golygu cyflawni gwaith neu weithrediadau yng ngwely neu ar lannau afon neu nant.  | Corff Adnoddau Naturiol Cymru  |                         |                                  |
| (n)  | Datblygiad er mwyn puro neu storio oelïau mwynol a'u deilliadau.  | Corff Adnoddau Naturiol Cymru  |                         |                                  |
| (o)  | Datblygiad yn ymwneud â chadw, trin neu waredu carthion, gwastraff masnachol, slyri neu laid (heblaw am osod carthffos, creu tŷ pwmp mewn llinell o garthffosydd, creu tanc septig a charthbwl i wasanaethu tai unigol neu garafanau unigol neu adeiladau unigol lle na fydd mwy na deg o bobl fel arfer yn byw, gweithio neu'n ymgynnull, a gwaith cysylltiedig â hynny).  | Corff Adnoddau Naturiol Cymru  |                         |                                  |
| (p)  | Datblygiad yn ymwneud â defnyddio tir fel mynwent.  | Corff Adnoddau Naturiol Cymru<br>Yr ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth perthnasol |                         |                                  |
| (q)  | Datblygiad— (i) mewn neu sy'n debygol o effeithio ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; neu (ii) mewn ardal sydd wedi'i hysbysu i'r awdurdod cynllunio lleol gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru ac sydd o fewn dau gilometr i safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, ac sydd wedi'i hysbysu, neu sy'n weithredol fel pe bai, yn unol ag adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig) fel sy'n berthnasol i Gymru o dan adran 27AA o'r Ddeddf honno (1).  | Corff Adnoddau Naturiol Cymru  |                         |                                  |

| Para | Disgrifiad o Ddatblygiad  | Ymgynghorai                   | A oes angen ymgynghori? | Ymgynghorai sydd wedi ei adnabod |
|------|---|-------------------------------|-------------------------|----------------------------------|
| (r)  | Datblygiad yn ymwneud ag – (i) unrhyw dir lle mae theatr; (ii) datblygiad preswyl (ac eithrio datblygiad deiliad tŷ) o fewn 50 metr i theatr (nad yw'n dod o dan baragraff (i)); neu (iii) theatr arfaethedig.  | Yr Ymddiriedolaeth Theatrau   |                         |                                  |
| (s)  | Datblygiad nad yw i bwrpas amaethyddol, nad yw'n unol â darpariaethau cynllun datblygu ac sy'n golygu – (i) colli dim llai na 20 hectar o dir amaethyddol gradd 1, 2 neu 3a sydd am y tro'n cael ei ddefnyddio (neu a ddefnyddiwyd diwethaf) i bwrpas amaethyddol; neu (ii) colli dim llai na 20 hectar o dir amaethyddol gradd 1, 2 neu 3a sydd am y tro'n cael ei ddefnyddio (neu a ddefnyddiwyd diwethaf) i bwrpas amaethyddol, mewn amgylchiadau lle mae'r datblygiad yn debygol o arwain at golli mwy o dir amaethyddol a fyddai, gyda'i gilydd, yn 20 hectar neu fwy.   | Gweinidogion Cymru            |                         |                                  |
| (t)  | Datblygiad o fewn 250 metr i dir – (i) sydd neu sydd wedi, ar unrhyw adeg yn y 30 mlynedd cyn y cais perthnasol, ei ddefnyddio i ddyddodi sbwriel neu wastraff; a (ii) sydd wedi'i hysbysu i'r awdurdod cynllunio lleol gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru i bwrpas y ddarpariaeth hon.  | Corff Adnoddau Naturiol Cymru |                         |                                  |
| (u)  | Datblygiad – (i) sy'n debygol o fod yn anfantais i ddefnyddio, neu o arwain at golli defnydd o dir sy'n cael ei ddefnyddio fel cae chwarae; neu (ii) sydd ar dir (aa) a ddefnyddiwyd fel cae chwarae ar unrhyw adeg yn y pum mlynedd cyn gwneud y cais perthnasol ac sy'n parhau i fod heb ei ddatblygu; neu (bb) sydd wedi'i ddyrannu i'w ddefnyddio fel cae chwarae mewn cynllun datblygu neu mewn cynigion ar gyfer cynllun o'r fath, neu mewn diwygiad ohono neu mewn cynllun newydd; neu (iii) sy'n golygu gwneud i ffwrdd ag wyneb glaswellt rhan o gae chwarae a ddefnyddir i chwarae, a rhoi wyneb artiffisial neu gyfansawdd yn ei le. | Cyngor Chwaraeon Cymru (2)    |                         |                                  |

| Para | Disgrifiad o Ddatblygiad  | Ymgynghorai   | A oes angen ymgynghori? | Ymgynghorai sydd wedi ei adnabod |
|------|---|---|-------------------------|----------------------------------|
| (v)  | Datblygiad sy'n debygol o effeithio – (i) ar unrhyw ddyfrfordd fewndirol (naturiol neu artiffisial) neu gronfa ddŵr a berchnogir neu a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd; neu (ii) ar unrhyw sianel bwydo camlas, cwrs dŵr, gollyngfa ddŵr neu gwlfert, sydd mewn ardal sydd wedi'i hysbysu i bwrpas y ddarpariaeth hon i'r awdurdod cynllunio lleol gan yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.  | Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd   |                         |                                  |
| (w)  | Datblygiad – (i) sy'n cynnwys lleoli sefydliadau newydd; (ii) sy'n cynnwys addasu sefydliadau presennol o dan Erthygl 11 o Gyfarwyddeb 2012/18/EU(1); neu (iii) sy'n newydd, gan gynnwys llwybrau trafnciaeth, lleoliadau a ddefnyddir gan y cyhoedd, ac ardaloedd preswyl, yng nghyffiniau sefydliadau presennol, lle gallai'r lleoliad neu'r datblygiad achosi neu waethygu'r risg neu'r canlyniadau o ddamwain fawr.   | Yr awdurdod cymwys sy'n rheoli peryglon damweiniau mawr, ac yng nghyswllt datblygiad sy'n dod o dan baragraff (iii), unrhyw berson sydd, yn ôl y gofrestr a gedwir gan yr awdurdod sylweddau peryglus o dan reoliad 22 o Reoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015(2), yn gyfrifol am reoli'r tir y lleolir unrhyw sefydliad presennol dan sylw arno. |                         |                                  |
| (x)  | Datblygiad – (i) ar dir wedi'i ddynodi fel Parth Llifogydd C2; (iii) sy'n golygu neu'n cynnwys datblygiad gwasanaethau brys neu ddatblygiad hynod fregus ar dir wedi'i ddynodi fel Parth Llifogydd C1 neu ar dir sydd wedi'i hysbysu i'r awdurdod cynllunio lleol gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru i bwrpas y ddarpariaeth hon.  | Corff Adnoddau Naturiol Cymru   |                         |                                  |
| (y)  | Datblygiad – (i) yn cynnwys datblygiad preswyl newydd (gan gynnwys unedau unigol); a (ii) new residential development (including single units); and (ii) sy'n ddatblygiad mawr nad yw'n dod o dan baragraff (i).  | Yr ymgwymerwr dŵr a charthffosiaeth perthnasol  |                         |                                  |
| (z)  | Datblygiad sy'n ymwneud ag – (i) datblygiad gwastraff; (ii) darparu tai annedd pan fo naill ai nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor neu pan fwriedir cyflawni'r datblygiad ar safle sydd â'i arwynebedd yn 0.5 hectar neu fwy ac nad yw'n hysbys a yw nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor; (iii) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor; (iv) datblygiad a gyflawnir ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu fwy; (v) darparu 10 neu ragor o fflatiau (boed hynny drwy gynyddu nifer y fflatiau mewn adeilad presennol neu fel arall); (vi) darparu llety preswyl ac ynddo 10 neu ragor o ystafelloedd, nad ydynt wedi eu cynnwys mewn tai annedd neu fflatiau, nad ydynt yn cael eu defnyddio yn unig at ddibenion coginio ac nad ydynt yn gyfleusterau toiled, yn ystafelloedd gwasanaeth, yn goridoriau, yn ystafelloedd golchi dillad, yn gynteddau neu'n ystafelloedd amlbwrpas; neu (vii) darparu llety preswyl ac ynddo 10 neuragor o ystafelloedd sydd wedi eu cynnwys mewn tŷ annedd neu fflat a ddefnyddir fel tŷ amfeddiannaeth, nad ydynt yn cael eu defnyddio yn unig at ddibenion coginio ac nad ydynt yn gyfleusterau toiled, yn ystafelloedd gwasanaeth, yn goridoriau, yn ystafelloedd golchi dillad, yn gynteddau neu'n ystafelloedd amlbwrpas. | Yr Awdurdod Tân ac Achub perthnasol   |                         |                                  |
|      | Dylid ychwanegu unrhyw ymgynghoreion ychwanegol sy'n cael eu hadnabod.  | e.e. grŵp diddordeb hanesyddol, grŵp amgylcheddol lleol, ac yn y blaen  |                         |                                  |

The author's contact details are provided below.

**Author Contact:**

Andrea Kellegher  
Turley, Engagement  
andrea.kellegher@turley.co.uk

**Office Address:**

18 Windsor Place  
Cardiff  
CF10 3BY

**Telephone:**

02920 375 075

# Turley